

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Torfaen

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Torfaen i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Torfaen bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Torfaen 4 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 4.

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Torfaen yn parhau i ddarparu amrediad eang o grwpiau a gweithgareddau, ochr yn ochr â chymorth iechyd a llesiant, a dylid ei ganmol am gynnal y ddarpariaeth hon gydag un o'r lefelau isaf o wariant ar staff a refeniw y pen yng Nghymru. Mae Torfaen wedi darparu enghreifftiau gwych, drwy eu hastudiaethau achos o sut mae llyfrgelloedd yn hanfodol i gefnogi lles aelodau'r gymuned. Mae Torfaen wedi parhau i weld gostyngiad yn y rhan fwyaf o agweddau ar ddefnydd, gyda lefelau'n is na'r canolrif yn y rhan fwyaf o feysydd. Fodd bynnag, roedd rhai agweddau wedi bod yn codi cyn Covid-19, ac mae'r defnydd o adnoddau digidol wedi cynyddu'n ddramatig. Mae'r lefel isel barhaus o fuddsoddi a gostyngiadau yn y gyllideb yn llesteirio'r gwasanaeth rhag cyflawni mwy. Bydd gallu'r gwasanaeth i arloesi ac ymestyn gwasanaethau yn parhau i gael ei rwystro gan y ffactorau hyn yn y dyfodol.

- Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant, ac mae Torfaen yn un o bedwar awdurdod yn unig sy'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau a gweithgareddau a nodwyd (craidd ac ychwanegol) ym mhob un o'i fannau gwasanaeth.
- Gwelwyd cynnydd mewn benthycwyr gweithredol ac mewn lawrlwythiadau electronig. Mae nifer y benthycwyr wedi cynyddu 22% er 2017/18, ac mae lawrlwythiadau electronig wedi gweld cynnydd o 79%.
- Mae'r gwariant ar ddeunyddiau fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru, a gwelwyd gostyngiad pellach yn y gyllideb ddeunyddiau eleni. Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng 8.5% er 2017/18.
- Gwelwyd cynnydd arwyddocaol mewn benthyciadau Cymraeg, ac mae'r ffigurau yn y maes hwn yn llawer uwch na'r canolrif yng Nghymru.
- Nid yw'r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA 12) wedi'u cyflawni, a hynny am y tro cyntaf yn y chweched fframwaith, ond roedd hyn o ganlyniad i newid i system reoli llyfrgelloedd newydd Cymru gyfan a chwe mis o faterion parhaus yn gysylltiedig â'r newid.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn

crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Torfaen yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Mae'n parhau i weithio gyda phartneriaid amrywiol i ddarparu ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi, gan gynnwys gwasanaeth 'Darllen i Mi' sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr. Mae cyflwyno cyfleusterau hunanwasanaeth ym mhob llyfrgell ym mis Ebrill 2019 hefyd wedi rhyddhau staff a'u galluogi i ganolbwyntio ar weithgareddau a allai ychwanegu gwerth i'r gwasanaeth. Mae strategaeth llyfrgell a gwasanaeth gwybodaeth Torfaen yn parhau i roi sail i gyfeiriad y gwasanaeth, ond nodir y gallai'r heriau economaidd a chymdeithasol sy'n cael eu hachosi gan Covid-19 fod yn effeithio ar hyn.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith COVID-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Torfaen, yn cyflawni 4 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 4 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Gwelwyd gostyngiad ym mherfformiad Torfaen yn 2019/20, ac nid yw'r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA 12) yn cael ei gyflawni mwyach, er bod hyn o ganlyniad i newid i system reoli llyfrgelloedd newydd Cymru gyfan a chwe mis o faterion parhaus yn gysylltiedig â'r newid.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Torfaen ei ddau arolwg defnyddwyr ym mis Ionawr 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	73%	18/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	90%	=6/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Torfaen dair astudiaeth achos o'r fath. Er hyn, mae un enghraifft (gwasanaeth cyfeillio yn y cartref i helpu cwsmeriaid agored i niwed sy'n teimlo'n ynysig yn ystod cyfnod clo Covid-19), yn ymwneud â gwaith a wnaethpwyd o fis Ebrill 2020 ymlaen, felly nid yw'n dod o fewn y flwyddyn adrodd hon, ac o ganlyniad nid yw wedi'i gynnwys isod:

- Ras Ofod – Cyflwyno gweithgareddau i gefnogi Her Ddarllen Haf 2019. Mae'r sesiynau hyn yn helpu i feithrin hoffter o lyfrau a darllen. Roedd hon yn fenter newydd sbon i wasanaeth Torfaen, ac mae'n dangos dull arloesol o ennyn diddordeb plant yn eu llyfrgell leol. Mae'r creadigrwydd a ddangoswyd gan y staff yn llyfrgelloedd Torfaen wedi helpu plant yn y gymuned i ddatblygu a gwella nifer o sgiliau. Mae'r sesiynau di-dâl hyn wedi helpu plant i ddatblygu eu sgiliau digidol, gan dynnu sylw at wasanaethau llyfrgell mewn amgylchedd cefnogol sy'n cynnig anogaeth.
- Grwpiau Chatterbox – Grŵp sy'n dod â phlant sydd â diddordeb mewn darllen at ei gilydd. Tynnir sylw at yr effaith ar un unigolyn ifanc; mae'r grŵp wedi rhoi cyfle iddi ddatblygu sgiliau newydd gan fod y grŵp yn trafod amrywiaeth eang o lyfrau; mae wedi ei helpu i wella ei sgiliau chwarae rôl ac wedi datblygu ei hoffter o ddarllen.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Torfaen, ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	83%	=8/18	25%	75%	94%	83%
c) iechyd a lles	77%	7/19	38%	69%	96%	77%
d) lle diogel a chroesawgar	96%	=12/19	90%	96%	100%	96%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	95%	4/18	78%	91%	99%	95%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	=10/18	88%	97%	100%	98%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b		65%	85%	99%	dd/b
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	98%	=5/18	85%	96%	100%	98%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	8.5	=17/19	8.0	9.1	9.5	8.5
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,333	17/22	2429	3987	6874	3,512
b) rhith-ymweliadau fesul pen	239	22/22	239	909	2131	513
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	128	14/22	78	145	244	101
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²	853	8/22	311	680	1468	323
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	8	16/22	4	9	14	8
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	24%	=12/22	14%	30%	64%	25%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£8,028	20/22	£7,260	£12,448	£23,333	£11,730
b) % ar staff	70%	=5/22	48%	61%	76%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	=6/22	5%	13%	22%	10%
% ar offer ac adeiladau	16%	4/22	0%	8%	28%	6%
% ar gostau gweithredol eraill	1%	22/22	1%	18%	35%	6%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	=22/22	£0	£1,567	£13,027	£546
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Torfaen ei ddau arolwg defnyddwyr ym mis Ionawr 2018, fel rhan o ymarfer ymgynghori ehangach, a dangoswyd lefelau uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid â'r gwasanaeth. Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant, ac mae Torfaen yn un o bedwar awdurdod yn unig sy'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau a gweithgareddau craidd ac ychwanegol a nodwyd ym mhob un o'i fannau gwasanaeth. Mae Torfaen wedi cadw ei achrediad Ystyriol o Ddementia, ac mae'n cynnig gwasanaeth darllen ar y cyd un i un. Mae darpariaeth iechyd a llesiant yn parhau'n un o'r meysydd lle gwelir cryfder.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae Torfaen yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Mae defnydd wedi gostwng at ei gilydd, a gellir priodoli hyn yn rhannol i Covid-19. Gwelwyd gostyngiad o 2.6% mewn ymweliadau â safleoedd llyfrgell er 2017/18, ynghyd â gostyngiad mewn benthyciadau llyfrau ac aelodau. Mae'r gostyngiad yn nifer yr aelodau o ganlyniad i waith glanhau data a wnaethpwyd ym mis Mawrth 2019 pan newidiodd Torfaen i system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan. Gwelwyd cynnydd mewn benthycwyr gweithredol a lawrlwythiadau electronig. Mae'r benthycwyr wedi cynyddu 22% er 2017/18, tra mae lawrlwythiadau electronig wedi gweld cynnydd o 79%. Gellir priodoli hyn i Covid-19, ond hefyd i fwy o fuddsoddiad yn BorrowBox a hyrwyddo ychwanegol drwy safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Mae gwariant ar ddeunyddiau fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru, a gwelwyd rhagor o ostyngiad yn y gyllideb ddeunyddiau eleni. Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng 8.5% er 2017/18. Mae'r ffigur ar gyfer cyfanswm y caffaeliadau wedi cynyddu, ond fel dau ar bymtheg o wasanaethau eraill yng Nghymru nid oes yr un o'r targedau caffael (DA 9) yn cael ei gyflawni. Mae'r gyfran o'r gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer deunyddiau plant wedi gostwng ychydig, ond gwelwyd cynnydd o 69% yn y gwariant ar adnoddau Cymraeg er 2017/18. Mae'n braf gweld bod hyn wedi arwain at gynnydd arwyddocaol mewn benthyciadau Cymraeg, ac mae'r ffigurau yn y maes hwn yn llawer uwch na'r canolrif yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaetha'r cynnydd yn y buddsoddiad, nid yw'r targed yn y maes hwn yn cael ei gyflawni. Gwelwyd gostyngiad bach yn y ddarpariaeth gyfrifiaduron personol a'r defnydd ohonynt, fel yn y gwasanaethau eraill ledled Cymru, gan fod yn well gan y rhan fwyaf o unigolion ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain, a chafodd nifer o hen ddyfeisiau na allent ddefnyddio apiau modern y llyfrgell eu tynnu o'r gwasanaeth. Am y tro cyntaf yn y chweched fframwaith methwyd â chyflawni'r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA 12). Mae'r gwasanaeth yn priodoli hyn i

broblemau technegol a oedd yn gysylltiedig â gweithredu system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Mae cyfanswm y staff wedi gostwng ychydig yn 2019/20 ac mae lefelau staffio Torfaen yn parhau yn un o'r rhai isaf fesul 10,000 o boblogaeth yng Nghymru. Mae lefelau staffio proffesiynol wedi'u cynnal ar ôl yr ad-drefnu a cholli swyddi y llynedd, ac nid yw'r targedau yn y maes hwn yn cael eu cyflawni. Nodir bod swyddi gwag yn y strwythur ar hyn o bryd. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng canran sylweddol o 40% er 2017/18. Mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif. Mae oriau agor blynyddol cyfanredol wedi cynyddu 16% er 2018/19. Nid yw'r targed (DA 16) wedi'i gyflawni ac mae Torfaen yn adrodd y nifer isaf o oriau agor fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, er ei fod yn nodi mai dim ond tair cangen sydd ganddo ac, o ganlyniad, nad yw erioed wedi cyflawni'r targed oriau agor. Mae'r Gwasanaeth yn adrodd bod y gwasanaeth danfon i'r cartref wedi'i ehangu a bod hynny wedi arwain at fwy o gapasiti.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae naratif Torfaen yn dangos sut y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Ffyniant i Bawb. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys clybiau Lego, sesiynau crefft a 'Gwau a Chlonc' (*Iechyd a Llesiant*). Mae'r gwasanaeth hefyd yn nodi ei gyfraniad tuag at ddiwylliant yng Nghymru drwy raglen hanes teulu gref.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Torfaen yn nodi bod blaenoriaethau'r gwasanaeth yn parhau'n seiliedig ar ei strategaeth llyfrgell (2018-2023). Mae ad-drefnu staff yn 2018/19 wedi newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Bydd pwyslais ar ddatblygu rôl y cynorthwydd llyfrgell a bydd cyfleoedd i staff yn y swyddi hyn gefnogi gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys sesiynau stori a chrefft, a sesiynau sgiliau TG. Bydd mwy o bwyslais hefyd ar gefnogaeth i gwsmeriaid mwyaf agored i niwed Torfaen. Mae rhagor o gynlluniau yn cynnwys cyflwyno canolfan Cyngor ar Bopeth i Lyfrgell Cwmbrân, a fydd o bosibl yn cael effaith ar y defnydd a wneir o'r gwasanaeth. Fel gwasanaethau eraill yng Nghymru, bydd gweithgareddau ar-lein a phresenoldeb digidol Torfaen yn cael ei adolygu.

Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Torfaen yn parhau i ddarparu amrediad eang o grwpiau a gweithgareddau, ochr yn ochr â chymorth iechyd a llesiant, a dylid ei ganmol am gynnal y ddarpariaeth hon gydag un o'r lefelau isaf o wariant ar staff a refeniw y pen yng Nghymru. Mae Torfaen wedi darparu enghreifftiau gwych, drwy eu hastudiaethau achos o sut mae llyfrgelloedd yn hanfodol i gefnogi lles aelodau'r gymuned. Mae Torfaen wedi parhau i

weld gostyngiad yn y rhan fwyaf o agweddau ar ddefnydd, gyda lefelau'n is na'r canolrif yn y rhan fwyaf o feysydd. Fodd bynnag, roedd rhai agweddau wedi bod yn codi cyn Covid-19, ac mae'r defnydd o adnoddau digidol wedi cynyddu'n ddramatig. Mae'r lefel isel barhaus o fuddsoddi a gostyngiadau yn y gyllideb yn llesteirio'r gwasanaeth rhag cyflawni mwy. Bydd gallu'r gwasanaeth i arloesi ac ymestyn gwasanaethau yn parhau i gael ei rwystro gan y ffactorau hyn yn y dyfodol.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.